

Ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i ymgynghoriad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar sut mae modd i gyrff sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus ddefnyddio diwylliant i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor ar sut mae modd i gyrff sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus ddefnyddio diwylliant i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.

Drwy gymhwyso'r diffiniad ehangach o ddiwylliant a gafodd ei fabwysiadu gan Swyddfa Lles Cenedlaethau'r Dyfodol¹, mae cynnig diwylliannol y cyngor yn cynnwys y Gwasanaeth Celfyddydau, y Gwasanaeth Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad, y Gwasanaeth Achlysuron a Thwristiaeth, y Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio, y Gwasanaeth Llyfrgelloedd, y Gwasanaeth Treftadaeth, a'r Gwasanaethau Cymraeg.

1. Pa mor effeithiol y mae Llywodraeth Cymru wedi bod o ran gwella cyfranogiad a mynediad at ddiwylliant i bobl mewn tldi?

Mae yna dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod darpariaeth ddiwylliannol yn allweddol o ran mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth wedi'i nodi yn yr adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 'y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru' (Medi, 2013), gan yr Athro Dai Smith, a'r adroddiad ategol sy'n adeiladu ar y gwaith yma – 'Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru.' (Mawrth, 2014), gan y Farwnes Kay Andrews, ar ran Llywodraeth Cymru.

O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru wedi cydweithio ar y rhaglen 5 mlynedd (2015-2020) sef 'Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau'. Nod y rhaglen yw gwella ansawdd dysgu creadigol yn ysgolion Cymru.

Yn ogystal â hyn, sefydlodd Llywodraeth Cymru 'Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant' o ganlyniad i argymhellion yn adroddiad y Farwnes Kay Andrews.

Ar ben hynny, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi bod 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn cyfrannu at les y genedl, drwy ei chynnwys fel un o'r saith Nod Lles.

Yn dilyn cyhoeddiad 'Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru' (Rhagfyr, 2016) gan Lywodraeth Cymru, croesawodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ymrwymadau Llywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn Atodiad 1 y ddogfen. Roedd llawer o'r rhain mewn perthynas â gwella cyfranogiad a mynediad at ddiwylliant i bobl mewn tldi.

Mae 'Cyfuno' a 'Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau' wedi dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglenni diwylliannol sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu:¹ "Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden." (<https://futuregenerations.wales/cy/aotp/culture-cy/>)

â thlodi ac addysg. Roedd ymrwymiad hefyd i raglenni diwylliannol sy'n canolbwyntio ar iechyd a datblygiad economaidd. Cafodd gwerthusiadau o 'Cyfuno' a 'Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau' eu cyhoeddi, a'u heffeithiolrwydd wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgau cymdeithasol a gaiff ei weld wrth adrodd ar fesurau canlyniadau; fodd bynnag, does dim gwerthusiad o raglenni iechyd neu ddatblygiad economaidd wedi bod o ran gwella cyfranogiad a mynediad at ddiwylliant i bobl mewn tldi.

Wrth fynd ymlaen â'r syniad o thema'r flwyddyn, rydyn ni'n croesawu'r cyhoeddiad sy'n nodi y bydd 2019 yn 'Blwyddyn Darganfod', gyda themâu tymhorol yn cynnwys 'Darganfod Diwylliant'. Dyma gyfle i Lywodraeth Cymru gefnogi Cymru wrth farchnata ei chynnig diwylliannol yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Byddai'n ddefnyddiol gweld adroddiad yn amlinellu nodau ac amcanion y blynyddoedd dynodedig hyn a sut mae Llywodraeth Cymru yn cymharu yn erbyn y rhain er mwyn deall eu heffeithiolrwydd. Ar ben hynny, drwy ddarpariaeth cynigion ac ymgyrchoedd penodol, bydd modd i'r ffocws lleol yn hytrach na chenedlaethol annog y rheini sy'n byw mewn tldi ac sydd wedi'u hallgau'n gymdeithasol gymryd rhan a manteisio ar y cynnig diwylliannol. Er enghraifft, defnyddio'r ymgyrch 'Darganfod Eich Diwylliant' i dynnu sylw at y cynnig diwylliannol lleol, gan annog pobl i brofi beth sydd ar garreg eu drws, efallai am y tro cyntaf erioed.

Rydyn ni eto i weld effeithiolrwydd y corff 'Cymru Greadigol', a'i botensial i hyrwyddo'r Diwydiannau Creadigol yng Nghymru, a'i gysylltedd â'r sector celfyddydau a diwylliannol i hyrwyddo amcanion economaidd y Diwydiannau Creadigol. Mae'n amlwg bod y diwydiant yma'n ffynnu yng Nghymru a'r DU², ac mae'n gyfle da i fynd i'r afael â thlodi trwy fuddsoddi mewn addysg diwydiannau creadigol, cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddi. Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i Raglen Clystrau'r Diwydiannau Creadigol llwyddiannus, sy'n rhan o fuddsoddiad ymchwil Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau gwerth miliynau o bunnoedd i economi creadigol y DU. Nododd yr Athro Jonathan Neelands, o Brifysgol Warwick, yn adroddiad NESTA a gafodd ei gomisiynu gan Gyngor Celfyddydau Lloegr – 'Experimental Culture: a horizon scan': "for the first time there is a congruence across economic, social, cultural, artistic, digital, and creative agendas that we've never seen before".³

Mae ymrwymadau eraill a fyddai'n cefnogi gwella cyfranogiad a mynediad at ddiwylliant i bobl sy'n byw mewn tldi; fodd bynnag, mae diffyg gwybodaeth ar gael ar gynnydd, ac felly mae'n anodd rhoi sylwadau ar effeithiolrwydd Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithio i ddatblygu a manteisio ar gynulleidfaoedd rhithwir, y rheini sydd tu hwnt i'r safleoedd a chynulleidfaoedd digidol ar gyfer achlysuron mawr a sefydlu achlysuron 'Made in Wales'.
- Hwyluso cyfraniad priodol gan y sector diwylliant i adfywio Prifddinas Ranbarth Caerdydd.

² '[Industrial Strategy: Creative Industries Sector Deal](#)', (HM Government, 2018)

³ https://media.nesta.org.uk/documents/experimental_culture_report_2018.pdf

- Creu o leiaf 100,000 prentisiaeth o ansawdd da sy'n addas ar gyfer pob oedran.
- Pennu amodau ariannu newydd ariannu ar gyfer sefydliadau chwaraeon a diwylliannol sy'n derbyn arian cyhoeddus er mwyn cynorthwyo pobl ifainc o gefndiroedd difreintiedig.
- Ehangu rhaglen Llywodraeth Cymru o fynediad agored i gyfleoedd celfyddydol a diwylliannol ar gyfer pobl ifainc.
- Cynyddu buddsoddiad yn y celfyddydau trwy greu Cronfa Her.
- Creu 'Cymru Hanesyddol'.
- Buddsoddi dros £1 miliwn y flwyddyn i drawsnewid llyfrgelloedd ac amgueddfeydd lleol yn barhaus.
- Yr astudiaethau dichonolrwydd ar sefydlu Oriol Gelf Genedlaethol ac Amgueddfa Bêl-droed.
- Cefnogaeth ar gyfer prosiectau cyllido torfol cymunedol.
- Cefnogaeth ar gyfer cyfryngau ar-lein ac argraffedig.
- Datblygiad y Strategaeth Amgueddfeydd Cymru wedi'i diweddarau (2010-2015).
- Gweithredu 'Siarter Amgueddfeydd' er mwyn pennu disgwyliadau ar gyfer amgueddfeydd cyhoeddus yng Nghymru a'r gofyniad i fesur y safonau a gaiff eu cyflawni yn ôl yr argymhellion yn yr Adolygiad arbenigol o ddarpariaeth amgueddfeydd lleol yng Nghymru (2015).

Yn ogystal, adroddon ni yn ein hymateb i 'Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru', bod ein darpariaeth ddiwylliannol wedi elwa'n fawr oherwydd cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd, a'n bod ni'n cefnogi Llywodraeth Cymru yn wrth iddi roi pwysau ar Lywodraeth y DU i adnewyddu cronfeydd yr UE yn llawn y tu hwnt i 2020. Heb y buddsoddiad yma fyddai gwaith adfywio'n canol trefi bywiog a Lido Cenedlaethol Cymru ddim wedi bod yn bosib. Rydyn ni bellach yn aros am yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y mater yma.

Rydyn ni hefyd wedi nodi ein bod yn croesawu cyflwyniad y setliadau ariannu tair blynedd er mwyn sicrhau bod modd i ddarparwyr diwylliannol gyfrannu'n effeithiol at gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru. Serch hynny, mae cyllid Loteri y Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer prosiectau yn parhau i fod yn ddyraniad blynyddol. Mae hyn yn golygu bod datblygu prosiectau yn y tymor hirach a dilyniant parhaus yn anodd, er enghraifft prosiect Forte yn rhaglenni Sonig (Diwydiant ein Cerddoriaeth Ieuencid)⁴.

Drwy gymryd rhan yn 'GŵylGrai' – yr ŵyl celfyddydau ieuencid cenedlaethol yng Nghymru i bobl ifainc gan bobl ifainc – gwyddom fod Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu tair blynedd o arian sy'n lleihau'n raddol (cyfanswm o £80,000) ochr yn ochr â chyllid Cyngor Celfyddydau Cymru. Cafodd yr Ŵyl ei sefydlu yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb wedi'i gomisiynu gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2015. Roedd modd i'r Uned Digwyddiadau Mawr gynnig cytundeb ariannu tair blynedd, tra bo cais am gyllid wedi cael ei wneud bob blwyddyn i Gyngor Celfyddydau Cymru sydd wedi arwain at ansicrwydd ar gyfer ŵyl sy'n anelu at gyrraedd pobl ifanc ledled Cymru i gymryd rhan mewn cyfleoedd

⁴Mae'r Prosiect Forte wedi'i ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r Sefydliad PRS er mwyn cefnogi a datblygu cerddoriaeth newydd ar draws rhanbarth De Cymru (<http://www.forteproject.co.uk/>)

diwylliannol a chael mynediad iddyn nhw. Bellach yn ei thrydedd flwyddyn, bydd yr ŵyl yn digwydd 25–28 Ebrill 2019, ar ôl blwyddyn fraenar yn 2018. Ar hyn o bryd, dim ond cyllid ar gyfer yr ŵyl yma sydd ar gael. Mae Grŵp Etifeddiaeth wedi'i sefydlu er mwyn trafod dyfodol yr ŵyl.

Yn ôl data Llywodraeth Cymru, mae gan Gymru dros 250 llyfrgell leol a dros 90 o amgueddfeydd ac felly nodon ni fod £1 miliwn yn teimlo'n annigonol er mwyn galluogi cyfraniad effeithiol. Rydyn ni'n aros am yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y mater yma hefyd.

Mae'r gwahanol ffrydiau cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi galluogi creu cyfleoedd i gymryd rhan mewn diwylliant, a manteisio arno, ar gyfer pobl mewn tldi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y Grant Dysgu Cymunedol
- Cyllid Cymunedau am Waith a Mwy
- Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf

Rydyn ni'n cymeradwyo Llywodraeth Cymru am gydnabod bod diwylliant yn cefnogi cyflwyniad yr amcanion sydd yn y rhaglenni yma. Er enghraifft, mae cyllid drwy'r Grant Dysgu Cymunedol yn cefnogi darpariaeth dysgu i oedolion yn y gymuned mewn lleoliadau yn y gymuned. Mae'n canolbwyntio ar gyflwyno sgiliau hanfodol, sgiliau cyflogadwyedd a sgiliau llythrennedd digidol. Fodd bynnag, mae modd cefnogi'r dysgu anffurfiol sy'n gwella lles ac ymgysylltiad cymdeithasol dysgwyr hŷn ac mae rhywfaint o hyblygrwydd o ran datblygu darpariaeth ymgysylltu lai dwys. Yn benodol, gweithgareddau a chyrsgiau 'bachu' i ehangu gorwelion y cyfranogwyr ac i ymgysylltu â nhw wrth ddysgu. Rydyn ni wedi gweld bod gweithgareddau diwylliannol yn ddull da o gyflawni hyn.

Mae tystiolaeth dda bod y gweithgareddau yma'n cynyddu lles y cyfranogwyr a datblygu ystod o sgiliau yn ogystal â chynnig llwybr yn ôl i ddysgu ar gyfer y sawl sydd wedi'u heffeithio gan afiechyd yn flaenorol neu sydd wedi cael eu diswyddo a bellach wedi colli hyder yn eu gallu i ailgysylltu â'r gweithle.

Caiff diwylliant a threftadaeth hefyd eu defnyddio i wella sgiliau hanfodol y cyfranogwyr, er enghraifft, mae pwyslais cryf yn y rhaglen ar sgiliau byw'n annibynnol (wedi'i gynllunio i wella sgiliau dysgwyr sydd ag anableddau dysgu cymedrol neu ddifrifol) ar ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Yn y ddarpariaeth olaf yma, mae unedau sy'n trafod cestyll a chymryd rhan mewn dawnsio gwerin yn sail i ddatblygiad sgiliau bywyd.

2. Pa mor effeithiol ydy ymdrechion y cyrff sydd wedi'u noddi gan Lywodraeth Cymru (hynny yw – Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru) a llywodraeth leol wedi bod o ran mynd i'r afael â materion tldi?

O ran Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, mae'n ymgynghorai ar geisiadau ar gyfer Caniatâd Adeilad Rhestredig (LBC) ac yn cynnig sylwadau ar geisiadau ar gyfer Caniatâd Ardal Gadwraeth ac ar gyfer ceisiadau sy'n effeithio ar Barciau a

Gerddi Hanesyddol. Felly, mae rhai cynlluniau adfywio wedi cael mewnbwn gan y corff yma mewn perthynas â chaniatâd cynllunio.

Rydyn ni'n falch iawn o weld bod Cynllun Corfforaethol newydd Cyngor Celfyddydau Cymru ('Er budd pawb...') yn cydnabod bod yna dal gormod o rwystrau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd, ac yn tynnu sylw at ehangu mynediad i'r celfyddydau yn rhan o'i ddwy flaenoriaeth. Mae'n ymddangos bod yna fwy o bwyslais ar gydraddoldeb ac amrywioldeb yn y cynllun yma, o'i gymharu â 'Dychmygwch...: Ein Gweledigaeth ar gyfer y Celfyddydau yng Nghymru, 2013-18', gan ymrwymo i "alluogi niferoedd mwy o bobl, ac amrywiaeth ehangach ohonynt, i fwynhau, cymryd rhan mewn a gweithio ym maes celf a ariennir yn gyhoeddus."⁵ Mae'r cynllun yn cydnabod bod y corff yn dymuno cyrraedd y rheiny sydd dan anfantais yn economaidd neu'n gymdeithasol, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at weld sut mae CCC yn cynnig 'cau'r bwlch' rhwng y rheiny yn y sectorau cymdeithasol mwyaf a lleiaf ffyniannus fel cynulleidfaoedd a chyfranogwyr.

Mae'r gwaith gwerthuso rhaglen 'Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau' yn tynnu sylw at y gwaith sydd wedi'i gyflawni mewn ysgolion er mwyn ehangu cyfranogiad a mynediad ym maes diwylliant. Mae nifer o ysgolion CBSRhCT wedi elwa o'r gwaith yma. Ar y llaw arall, rydyn ni'n credu byddai modd gwneud y rhaglen yn fwy gwerthfawr pe byddai'i Hysgolion Creadigol Arweiniol yn ymgysylltu â'u Gwasanaethau Celfyddydau lleol (os yw'n berthnasol).

Bydd y gwaith gwerthuso mewn perthynas â'r rhaglen adfywio pedair blynedd wedi'i harwain gan y celfyddydau, *Creu Cymunedau Cyfoes* (IPP), un o'r saith rhaglen sydd wedi cael ei chyflawni yn RhCT, yn cyfrannu at ddull trechu tlodi ac allgau cymdeithasol trwy ddatblygu dulliau newid ymddygiad a meddwl mewn modd cydgysylltiedig yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn y gymuned a'r sefydliadau sy'n eu gwasanaethu nhw.

Mae CBSRhCT yn cydnabod gwerth diwylliant wrth drechu tlodi ac allgau cymdeithasol. Mae'r arlwy diwylliannol yn Rhondda Cynon Taf yn gyfoethog a llewyrchus. Mae gwasanaethau allweddol o fewn yr Awdurdod Lleol yn cefnogi'r arlwy yma er mwyn iddo lwyddo.

Mae'r Gwasanaeth Celfyddydau yn gweithio gyda gwasanaethau eraill y Cyngor a sefydliadau i sicrhau bod gan y rheiny sy'n byw mewn tlodi a'r rheiny sydd wedi'u hallgau yn gymdeithasol fynediad i'r celfyddydau. Mae Carfan y Celfyddydau a'r Diwydiannau Creadigol wedi'i chomisiynu gan Wasanaeth Teuluoedd Cydnerth y Cyngor ac yn defnyddio cyllid Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru er mwyn darparu rhaglen celfyddydau ieuencid a cherddoriaeth ieuencid sy'n gwella llesiant emosiynol a meddyliol, newid ffordd o fyw ac ymddygiad a gwella cydnerthedd. Mae'r gwaith yma'n cael ei gyflawni trwy weithio ar y cyd, er enghraifft gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal a Chynhalwyr Ifainc y Cyngor, Barnardos, Canolfan Byd Gwaith a Llamau.

Mae Theatrau RhCT (Theatr y Colisëwm, Aberdâr a Theatr y Parc a'r Dâr, Treorci) yn rhan o Bortffolio Celfyddydol Cymru Cyngor Celfyddydau Cymru ac yn cynnig

⁵ 'Er budd pawb...', Cynllun Corfforaethol 2018-2023, Cyngor Celfyddydau Cymru, t.10

gweithdai wedi'u targedu trwy ymweld â chwmnïau; rhaglen gyfranogol Take pART fforddiadwy; perfformiadau a dangosiadau hamddenol; Clwb i Blant sy'n cynnig sesiynau celf a chreffft; a rhaglen Daytime Delights. Mae cymorth ar gael ar gyfer ysgolion a'r sector gwirfoddol hefyd fel bod modd iddyn nhw berfformio o fewn lleoliadau proffesiynol fel y theatrau. Caiff y cymorth yma'i gynnig ar ffurf gwybodaeth ac arbenigedd ein staff, trwy gynnig gwasanaethau llogi cymorthdaledig wedi'u seilio ar feini prawf cefnogi'r gwasanaeth er mwyn iddo gyflawni'i amcanion. Hefyd, mae ein Cynllun Busnes Artistig, a gafodd ei adolygu yn unol â chytundeb Portffolio Celfyddydol Cymru CCC yn ddiweddar, yn nodi'r bwriad i ymgysylltu â'n cymunedau er mwyn 'lleihau'r bwlch' o ran cyfranogiad diwylliannol. Mae'r gwasanaeth, ar y cyd â Gwasanaethau Hamdden y Cyngor, wedi bod yn archwilio posibilïadau defnyddio dull MOSAIC⁶ er mwyn meithrin dealltwriaeth well o'n cynulleidfaoedd a deall sut mae modd ymgysylltu â'r rheiny sydd ddim yn ymweld â'r theatrau, a chyfranogwyr.

Mae Theatrau RhCT hefyd wedi cofrestru gyda chynllun mynediad cenedlaethol, HYNT⁷, sy'n darparu arlwy cyson i ymwelwyr sydd â nam neu ofynion mynediad penodol, a'u Cynhalwyr neu Gynorthwyr Personol.

Mae'r Gwasanaeth Treftadaeth wedi ymrwymo i ehangu mynediad a chyfranogiad yn ein harlwy treftadaeth ddiwylliannol ac yn ceisio darparu cyfleoedd sy'n galluogi'n cymunedau i ymgysylltu'n uniongyrchol â'u treftadaeth. Mae cynlluniau'r gwasanaeth sydd wedi'u harwain gan y gymuned yn cynnig cyngor ynglŷn â cheisiadau cyllid grant ac yn cefnogi cyflawni prosiectau. Er enghraifft: Grŵp Archifau'r Maerdy, Gweithgor Pererindod Pen-rhys a Gwobrau Hanes Lleol John Hopla i Ysgolion.

Rydyn ni'n sicrhau bod yna ddarpariaeth addysgol fforddiadwy ar gael i ysgolion, gan ganolbwyntio ar weithredu mewn ardaloedd difreintiedig iawn (Mynegai MALIC 2014). Rydyn ni hefyd yn darparu profiadau hygyrch ac arloesol am ddim ar hyd a lled RhCT trwy gydlynu gweithgareddau ar gyfer Plant mewn Amgueddfeydd, Gŵyl Amgueddfeydd Cymru a Diwrnod Cenedlaethol Treftadaeth Chwaraeon.

Rydyn ni'n sicrhau bod gan y gymuned fynediad i'n treftadaeth ddiwylliannol trwy gydlynu rhaglen ar gyfer casgliadau hanesyddol a Chynllun Placiau Glas. Hefyd, rydyn ni'n cydlynu cyfleoedd diwylliannol wedi'u targedu, gan gynnwys grwpiau cymunedol sy'n cynnig gwasanaethau seibiant ar gyfer pobl â dementia.

Mae atyniad ysbrydoledig Taith Pyllau Glo Cymru yn Nhrehafod yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd ymgysylltu yn ein treftadaeth ddiwylliannol ac mae ysgolion lleol, preswylwyr, grwpiau ac ymwelwyr rhyngwladol yn ymweld â'r atyniad. Yn 2017, roedd ein cais llwyddiannus ar gyfer Grant Gŵyl Amgueddfeydd Cymru (a gafodd ei weinyddu gan Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru ar ran Llywodraeth Cymru) wedi galluogi'r gwasanaeth i gynnal rhaglen Glowyr Bach – profiad dysgu'r blynyddoedd cynnar wedi'i arwain gan y teulu yn y lleoliad.

Mae'r Gwasanaeth Treftadaeth yn darparu gwasanaeth gofalu am gasgliadau a chymorth proffesiynol i Daith Pyllau Glo Cymru ac Amgueddfa Cwm Cynon gan sicrhau bod gan y gymuned fynediad i dreftadaeth mewn amgueddfeydd am ddim.

⁶<https://www.experian.co.uk/marketing-services/products/mosaic-uk.html>

⁷<http://www.hynt.co.uk/cy/>

Ar ben hynny, rydyn ni'n ceisio rhoi cyfleoedd cyd-guradu gyda'r gymuned, trwy ddarparu rhaglen arddangosfeydd dros dro Taith Pyllau Glo Cymru.

Mae'r Gwasanaeth Addysg i Oedolion yn rhoi cyfleoedd yn ein cymuned, gan nodi diwylliant fel dull allweddol er mwyn ennyn diddordeb pobl mewn cyfleoedd dysgu. Mae esiamplau o hyn yn cynnwys darparu'r isod gan ddefnyddio Grant Dysgu yn y Gymuned:

- Darparu gweithdai crefftau
- Hwyluso gweithdai cerddoriaeth (ukulele ac ati)
- Cefnogi dosbarthiadau sy'n bwriadu datblygu'r gronfa o erthyglau Cymraeg ar Wikipedia
- Gweithio gyda grwpiau er mwyn datblygu arddangosfeydd sy'n cysylltu ag achlysuron cenedlaethol e.e. y Rhyfel Byd Cyntaf
- Hwyluso grwpiau dysgu a grwpiau cymunedol, fel grwpiau ffotograffiaeth, hanes lleol a gweithgareddau hanes i'r teulu

Mae gwasanaeth Cymunedau am Waith a Mwy (CFW+) hefyd yn creu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu diwylliannol: 'Celf law yn llaw â Llythrennedd' (gwella sgiliau iaith Saesneg trwy weithgareddau artistig) a Grwpiau Ffordd o Fyw ar gyfer Dynion lle mae amrywiaeth o weithgareddau'n cael eu hwyluso gan staff Cymunedau am Waith a Mwy (gan ddibynnu ar yr anghenion sydd wedi'u nodi).

Yn y gorffennol, roedd cyllid Cymunedau yn Gyntaf wedi galluogi rhieni/cynhalwyr a'u plant i ymgysylltu â chynllun PETRA (a gafodd ei sefydlu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili), gan wella sgiliau allweddol a chreu stori a gafodd ei datblygu gan y plant eu hunain (cafodd y stori yma ei chyhoeddi a'i dosbarth ar draws Llyfrgelloedd RhCT). Roedd y cynllun yn llwyddiannus iawn a chafodd effaith gadarnhaol ar lefelau llythrennedd. O ganlyniad i lwyddiant y cynllun, mae wedi parhau i dderbyn cyllid trwy grantiau Teuluoedd yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf.

Caiff Canolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg ei chyllido trwy gyfuniad o gyllid craidd y Cyngor ac unrhyw incwm masnachol sy'n cael ei gynhyrchu. Mae gan y ganolfan raglen o achlysuron, perfformiadau ac arddangosiadau wedi'i chynllunio i gynnwys preswylwyr mewn amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n ymwneud â diwylliant. Mae hyn wedi profi i fod yn ffordd wych o ddenu preswylwyr o bob cefndir i ymgysylltu â dysgu. Mae mwyafrif yr achlysuron, a phob arddangosfa, am ddim, er bod yna gost ar gyfer rhai perfformiadau a chyrsgiau. Mae'r ganolfan wedi derbyn cydnabyddiaeth yn yr ardal ar gyfer y cyrsiau mae'n eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft, mae dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ar lenyddiaeth Cymraeg a hanes yn boblogaidd iawn, ac mae darpariaeth perfformiadau theatr yn cynnwys dramâu cyfrwng Cymraeg a chyngherddau yn ogystal â darpariaeth cyfrwng Saesneg. Mae nifer mawr o ddosbarthiadau Cymraeg yn cael eu cynnal gan Brifysgol De Cymru yn y Ganolfan a chaiff Eisteddfod ar gyfer Dysgwyr ei chynnal yn gyson.

Mae dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithdai crefftau a ffotograffiaeth – crochenwaith, celf ac ati – yn cael y cyfle i arddangos a gwerthu eu gwaith ac i rai pobl mae hyn yn rhoi'r cyfle iddyn nhw ddatblygu sgiliau newydd sbon a llwybr newydd i gyflogaeth neu ddysgu pellach.

Mae Gwasanaeth y Llyfrgelloedd yn chwarae rhan bwysig iawn o ran hyrwyddo diwylliant a hwyluso gweithgareddau diwylliannol wrth ddarparu man diogel lle mae modd i bobl dreulio amser. Mae agor casgliadau astudiaethau lleol trwy ddigideiddio yn broses barhaus. Ar hyn o bryd mae modd gweld lluniau hanesyddol o'r sir (dros 20,000 ohonyn nhw) ar-lein am ddim.

Mae lleoliadau anffurfiol y llyfrgelloedd yn golygu ei bod hi'n haws cael mynediad i weithgareddau allgyrsiol ar gyfer pob rhan o'r gymuned ond maen nhw'n rhan bwysig o'r rheiny sy'n byw mewn tlogdi a'r rhai sydd wedi'u hallgau'n gymdeithasol. Dyma le mae nifer o bobl yn cael blas ar weithgareddau'r celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol, boed hynny mewn sesiwn Amser Rhigytau, sesiwn celf a chreffft neu sesiwn codio creadigol.

Mae Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn cynllunio'u gweithgareddau celf a diwylliannol eu hunain ond maen nhw hefyd yn gweithio'n agos ag amrywiaeth o sefydliadau, grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol ac adrannau eraill y Cyngor er mwyn darparu gwasanaethau diwylliannol. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau crefft, grwpiau darllen, grwpiau ysgrifennu creadigol, grwpiau barddoniaeth, arddangosfeydd lleol a hyd yn oed berfformiadau cerddoriaeth a dawn. Mae'n bwysig iawn nodi bod y mwyafrif o'r gweithgareddau yma am ddim.

Mae'r Llyfrgelloedd hefyd yn gweithredu'n borth i arlwy diwylliannol ehangach yr ardal, gan gynnwys amgueddfeydd, galerïau, theatrau a chynlluniau treftadaeth. Mae'n bosibl bod hyn, yn syml, trwy arddangos deunyddiau hyrwyddol ar gyfer y sefydliadau diwylliannau neu ddarparu lleoliad ar gyfer y sefydliadau hynny er mwyn iddyn nhw gyrraedd cymunedau lleol a phobl sy'n llai tebygol o fanteisio ar y celfyddydau.

Mae Llyfrgelloedd RhCT yn annog cymunedau i archwilio'u diwylliant, hunan fynegiant a gallu creadigol trwy ddarparu:

- Mannau diwylliannol
- Adnoddau diwylliannol
- Gweithgareddau diwylliannol
- Rhaglenni diwylliannol
- Achlysuron diwylliannol

Mae Llyfrgelloedd RhCT yn darparu rhwydwaith o fannau i'r gymuned sy'n cysylltu â chymunedau ar draws y Fwrdeistref Sirol i ddarparu gweithgareddau a phrofiadau diwylliannol i bobl sy ddim, fel arfer, yn cymryd rhan yn y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol. Maen nhw'n cyflawni'r rôl yma mewn modd cost effeithlon a chynhwysol ac mae gostyngiadau parhaus yn swm y cyllid sy'n cael ei wario ar wasanaethau'r llyfrgelloedd yn peryglu'r rôl hanfodol yma.

Fel yng Ngharth Olwg, caiff amrywiaeth o weithgareddau eu trefnu a'u hwyluso gan y Gwasanaeth i Lyfrgelloedd – yn benodol, caiff grwpiau ysgrifennu creadigol eu cynnal, mae grwpiau barddoniaeth yn cael eu cynnal mewn llyfrgelloedd ac mae haneswyr cymunedol yn defnyddio'r cyfleusterau er mwyn cyflawni gwaith ymchwil ac yn derbyn cefnogaeth er mwyn datblygu a hyrwyddo eu cyhoeddiadau. Mae'r gwasanaeth yn cyhoeddi cyfres o farddoniaeth a rhyddiaith wedi'u hysgrifennu gan

bobl leol bob flwyddyn. Hefyd, mae grwpiau gwau a grwpiau crefftau yn cwrdd yn y lleoliadau, mae hyn yn lleihau arwahanrwydd cymdeithasol yn ogystal â chynnig manteision eraill ar gyfer y gymuned. Er enghraifft mae grŵp gweu 'Knitting Nannas' yn darparu gwisgoedd pen ar gyfer babis sy'n cael eu geni'n gynnar, yn anfon blancedi i elusennau ac yn codi arian ar gyfer elusennau lleol.

Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru raglen o weithgareddau, *Cymru'n Cofio* ac mae wedi cael effaith ar godi ymwybyddiaeth o'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru ac annog unigolion a grwpiau i gyflawni gwaith ymchwil, trefnu achlysuron a chymryd rhan mewn cynlluniau sy'n ymwneud â chanmlwyddiant y rhyfel. Mae yna dystiolaeth bod yr holl brosiectau yma, yn enwedig o gwmpas Rhondda Cynon Taf, wedi arwain at ystod fwy eang o bobl o bob cefndir yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi datblygu'u sgiliau a gwella'u hyder, yn ogystal â'u gwybodaeth am y cyfnod e.e. cynlluniau Pabi a gafodd eu cynnal ym Mharc Ynysangharad. Mae'r gwaith marchnata sydd wedi cael ei gyflawni gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru ac mae nifer o arddangosfeydd ac achlysuron lleol wedi cael eu datblygu o gwmpas themâu allweddol y canmlwyddiant sydd wedi cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau.

Mae'r gwaith ar ddigido papurau a chylchgronau yng Nghymru wedi gwneud y casgliadau yn fwy hygyrch tra bod prosiectau fel Cynefin yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i wirfoddoli a all helpu i hybu cyflogadwyedd ymhlith y rhai sy'n chwilio am waith ac sydd angen gwella eu CV neu ddangos profiad gwaith diweddar ar ffurflen gais.

Mae Casgliad y Werin Cymru wedi ei groesawu mewn cymunedau ac mae wedi helpu i ddemocrateiddio hanes gan roi cyfle i bobl uwchlwytho straeon eu teuluoedd yn ogystal ag eitemau sy'n ymwneud â chlybiau a chymdeithasau ledled y wlad. Yn debyg i raglenni eraill sydd wedi'u datblygu gan y Llyfrgell Genedlaethol, mae'r rhain yn cefnogi datblygiad personol ac yn cynnwys meithrin sgiliau newydd i'r rheiny sy'n cymryd rhan ynddyn nhw.

Mae diwylliant yn cael ei ddefnyddio yn fodd ymgysylltu ar gyfer dysgu pellach ac yn ffordd o fynd i'r afael â thlodi dyhead drwy ehangu gorwelion ac agor llygaid pobl i gyfleoedd a diddordebau nad ydyn nhw wedi'u hystyried o'r blaen. Mae'n anodd pennu rhif ar gyfer nifer y bobl sydd wedi cymryd rhan yn y dysgu neu yn y ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â gwaith o ganlyniad i'r gweithgareddau ymgysylltu yma gan nad ydyn ni'n cadw cofnod o'r llwybrau atgyfeirio i'n rhaglenni dysgu. Serch hynny, mae adborth gan staff rheng flaen yn nodi bod defnyddio gweithgareddau diwylliannol yn denu rhagor o bobl (a dyma'r rhwystr cyntaf y mae angen ei oresgyn).

I rai, mae'n debyg mai dyma'r cam cyntaf ar y llwybr yn ôl i waith ond mae'n anodd rhoi data i ategu hyn. Mae effaith gostyngiadau mewn cyllid dros y 4 blynedd ddiwethaf wedi golygu bod swyddogaethau gweinyddu a rheoli wedi cael eu lleihau'n sylweddol fel nad oes digon o allu i olrhain cyrchfannau'r sawl sy'n cymryd rhan.

Mae'r Gwasanaeth Twristiaeth, Achlysuron a Marchnata yn darparu ystod o weithgareddau i ddenu pobl i'r sir gan ddisgwyl y bydd hynny'n cynyddu nifer yr ymwelwyr a'r gwariant yn y trefi a'r pentrefi lleol fel bydd yr economi yn tyfu a rhagor o gyfleoedd gwaith ar gael i bobl leol.

Yn aml mae gan yr achlysuron yma themâu neu gysylltiadau diwylliannol:

- Mae achlysuron **Diwrnod y Lluoedd Arfog** dros y 4 blynedd ddiwethaf wedi cysylltu â choffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf. Eleni, cafodd rhaglen o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar y Pabi ei datblygu mewn partneriaeth â'r Lleng Brydeinig, grwpiau yn y gymuned ac ysgolion cynradd. Yn y rhaglen yma, bu gwirfoddolwyr a thrigolion o bob oed yn creu pabiau ceramig i addurno'r gofeb ym Mharc Ynysangharad yn barod ar gyfer Sul y Cofio
- Cymorth a gafodd ei ddarparu ar gyfer **Parti Ponty** (wedi'i arwain gan Fenter Iaith RhCT)
- **Rasys Nos Galan**

Mae'r amgylchedd adeiledig a'r dreftadaeth anniriaethol ill dau, sy'n ffurfio rhan o'r dirwedd dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog ac amrywiol, wedi cael eu defnyddio yn rhan o agenda adfywio Cyngor RhCT. Mae'r garfan adfywio wedi cefnogi, datblygu a chyflwyno nifer o brosiectau sydd wedi cynnwys agweddau diwylliannol a threftadaeth, yn ddiriaethol ac yn anniriaethol, sydd wedi ysgogi effaith gymdeithasol ac economaidd gadarnhaol.

Dwy enghraifft allweddol yw Menter Treftadaeth Treflun Aberdâr a'r Lido. Roedd effeithiau'r rhain yn rhai eang a chafodd swyddi eu creu, cafodd rhagor o ymwelwyr eu denu i'r ardal leol, cafodd yr amgylcheddol ffisegol ei wella a buddsoddi mewnol ei symbylu. Yn ogystal â sicrhau diogelwch, hirhoedledd ffisegol a natur ymarferol yr asedau a'r tirweddau, sicrhodd ymgysylltu, gwella sgiliau ac addysg (a oedd yn rhan o brosiectau o'r fath) fod yr effeithiau yn amlwg i raddau helaeth yn y gymuned. Mae dwy astudiaeth achos isod sy'n rhoi manylion o'r math o effaith y mae'r prosiectau adfywio a threftadaeth ddiwylliannol yma wedi ei chael ar yr agenda tldi yn yr ardal.

a) Lido Ponty – Lido Cenedlaethol Cymru

Mae'r Lido yn dyddio'n ôl i 1927 pan gafodd ei adeiladu yn y dull celf a chrefft. Cafodd ei ariannu gan gronfa lles y glowyr – ardoll a gafodd ei rhoi ar echdynnu glo oedd yn bwydo'r gronfa yma. Er gwaethaf nifer o ddegawdau o boblogrwydd, cafodd y safle ei gau ym 1991 oherwydd gostyngiad yn nifer y defnyddwyr a chyflwr yr adeiladwaith. Cafodd y Lido sy'n eiddo i'r ALI ei gofrestru'n adeilad Gradd II yn 2001, a dyma'r unig Lido sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru. Mae'r Lido yn sefyll ym Mharc Ynysangharad, sef Parc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig Gradd II, ac mewn Ardal Gadwraeth sy'n agos i'r dref. Prif amcan y prosiect oedd adfer y safle gan ddilyn ymagwedd seiliedig ar gadwraeth a oedd yn parchu'r dynodiadau statudol wedi'u hamlinellu, a chreu cyfleuster modern sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif. Roedd Grantiau Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn cynnig digon o gyllid i wneud y prosiect yma'n un hyfyw.

Effaith Gymdeithasol

Roedd gan y cynllun gweithredu cymunedol lu o weithgareddau cymunedol ac addysgol parhaus sy'n targedu croestoriad eang o fuddiolwyr. Cafodd rhinweddau addysgol, dysgu a hunan-barch y prosiect eu hamlygu yng ngwerthusiad y prosiect. Mae'r prosiect wedi darparu cyfleuster o'r radd flaenaf a chanolbwynt ar gyfer y teulu i gyd y mae modd manteisio arno gan y cymunedau difreintiedig cyfagos. Yn ogystal â hynny, mae wedi darparu llawer o gyfleoedd i bobl rannu eu hatgofion o'r Lido a bywyd yn yr ardal ar y pryd.

Effaith Economaidd

Mae'r effaith anuniongyrchol ac uniongyrchol yn dibynnu ar allu'r Lido i ddenu gwariant ymwelwyr ac i ddarparu swyddi lleol. Yn ôl amcangyfrifon, mae'n darparu 21 o swyddi cyfwerth ag amser llawn o fewn yr economi leol. Aeth dros dri chwarter (76%) o'r gwariant adeiladu ar gyfer y Lido at gyflenwyr yn Ne Ddwyrain Cymru ac ar y cyd, roedd gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu yn darparu 38 o swyddi yn ystod y rhaglen adeiladu. Yn ôl dros hanner y masnachwyr (53%) yng nghanol y dref, mae'r Lido wedi cael effaith gadarnhaol ar fasnach ers ei agor, gyda chyfran debyg yn disgwyl i hyn barhau. Roedd dros ddwy ran o dair (69%) o'r masnachwyr o'r farn bod effaith gadarnhaol wedi bod ar fasnach i fusnesau yn gyffredinol. Mae wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr yng nghanol y dref a'r parc.

Yn ystod chwarter cyntaf 2018, y gyfradd swyddi gwag oedd 7.7%, sy'n ostyngiad sylweddol i'r gyfradd waelodol o 10.7% o swyddi gwag a gafodd ei chofnodi yn 2012. Y gyfradd swyddi gwag gyfartalog yng Nghymru ar gyfer dechrau 2018 oedd 13%.

Amgylcheddol

O safbwynt golygfa esthetig amgylcheddol, mae'r prosiect wedi dileu dolur llygad gweladwy ac wedi dod ag ased diffaith yn ôl i ddefnydd cynhyrchiol. Mae'r ardaloedd cyfagos wedi'u hail-dirlunio hefyd wedi cael eu gwella, gan greu amgylchedd sy'n ysbrydoli. Mae'r ymagwedd yma sy'n parchu cadwraeth – a oedd yn cynnwys aildefnyddio hen deils yn yr adeiladwaith – wedi hyrwyddo'r syniad yma. Yn ogystal â hynny, roedd ôl troed carbon y gweithwyr ar y safle yn cael ei fonitro a chafodd mesurau bioamrywiaeth eu rhoi yn eu lle megis blychau ystlumod.

Mae'r ganolfan ymwelwyr yn adrodd hanes y Lido a'r adferiad, ac mae ganddi nifer o arteffactau diddorol a nodweddion dehongli rhyngweithiol a thraddodiadol. Mae'r elfennau deniadol yma'n dod â gorffennol y lido yn fyw unwaith eto ac yn dathlu rhai o'i bobl a'i ddigwyddiadau allweddol.

b) Astudiaeth Achos – Menter Treftadaeth Treflun Aberdâr

Cymeradwyodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri trwy'r Rhaglen Menter Treftadaeth Treflun £1.4 miliwn ar gyfer Aberdâr, a gafodd ei gwblhau yn 2016, ar gyfer prosiect gwerth £1.9 miliwn. Yn y dref, mae enghreifftiau niferus o Bensaernïaeth Fictorianaid ac mae ganddi gryn dipyn o adeiladau nodedig. Mae'r ffaith bod yna 33 o adeiladau rhestredig ac Ardal Gadwraeth yng nghanol Aberdâr yn cadarnhau hyn. O ganlyniad i ddad-ddiwydiannu – yn debyg i sawl tref a dinas hanesyddol – bu problemau gyda diboblogi, dirywiad yr adeiladwaith hanesyddol ac ymagwedd fwy swyddogaethol a sylfaenol tuag at erydu cymeriad gwreiddiol yn sgil datblygu trefol. Mae'r Fenter Treftadaeth Treflun wedi caniatáu buddsoddi sylweddol i gynnal gwaith graddfa fawr i adnewyddu adeiladau pwysig sydd wedi gwella'r dref hanesyddol.

Cafodd £450,000 ei ddynodi o Gronfa Dreftadaeth y Loteri i gyflogi swyddog Menter Treftadaeth Treflun ac ar gyfer gweithgareddau cymunedol ac addysgol ategol. Cafodd y gronfa gyffredin ei goruchwyllo gan bartneriaeth Menter Treftadaeth Treflun sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned leol. Mae'r adeiladau erbyn hyn yn cael eu defnyddio unwaith eto ac wedi gwella estheteg yr ardal. Mae hyn hefyd wedi ategu cynlluniau eraill, megis y Cynllun Adfywio.

Effaith Gymdeithasol

Roedd gan y rhan fwyaf o'r mentrau ategol ffocws addysgol, a oedd yn amrywio o brosiectau treftadaeth ysgol a chelf, i hyfforddiant ar gyfer contractwyr. Cafodd llawer o sylwadau cadarnhaol eu cyflwyno gan y rheiny a gymerodd ran yn y sesiynau hyfforddiant, addysgol ac ymgysylltu.

Effaith Economaidd

Yn sgil gwella eiddo, daeth nifer o ganlyniadau cadarnhaol o ran yr economi:

- Cafodd 830 metr sgwâr o ofod manwerthu ei greu
- Cafodd 9 swydd gyfwerth ag amser llawn (a all godi i 13 o swyddi yn y dyfodol) eu creu
- Cafodd 42 o swyddi cyfwerth ag amser llawn eu cymhwysu
- Cafodd 10 o fentrau eu cymhwysu

Mae nifer yr ymwelwyr wedi parhau i fod yn gyson – tua 23-24,000 – dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Cynyddodd swyddi gwag i 11.6% – mae hyn yn llawer gwell na'r gyfradd ddisgwyliedig o rhwng 18% a 25% yn ôl tueddiadau yn y gorffennol. Mae cyfradd swyddi gwag Aberdâr ar gyfer chwarter cyntaf 2018 ychydig yn is ar 11.3%, sy'n well na'r gyfradd swyddi gwag gyfredol o 13% yng Nghymru.

Effaith Amgylcheddol

Heb amheuaeth, mae ymdrechion y Fenter Treftadaeth Treflun wedi newid amgylchedd ffisegol y dref er gwell. Bu manteision enfawr o ran treftadaeth ac mae adeiladau hanesyddol unigol (y mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw yn adeiladau rhestredig a gwag ac yn nodweddion gwreiddiol o ganol tref Aberdâr) wedi cael eu hatgyweirio. Mae'r doreth o hyfforddiant ac addysg wedi'i nodi eisoes wedi cynyddu gwybodaeth am dreftadaeth ymhlith cynulleidfau eang o bobl. Mae gweithredu'r Fenter Treftadaeth Treflun trwy system bartneriaeth wedi cyfrannu'n helaeth at roi'r gallu i wneud penderfyniadau yn ôl yn nwylo'r gymuned, ac felly herio'r drefn arferol.

Mae'r gwasanaethau sy'n creu cyfleoedd i ymgysylltu â'n treftadaeth ddiwylliannol a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol hefyd yn darparu llwybrau i waith sy'n mynd i'r afael â thlodi.

Mae'r Gwasanaeth Celfyddydau yn darparu cyfleoedd profiad gwaith a gwirfoddoli i ddisgyblion ysgol ac unigolion sydd â diddordeb mewn datblygu sgiliau ar gyfer gyrfa yn y sector. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi darparu Prentisiaethau Theatr Technegol yn Theatrau RhCT dros y blynyddoedd diwethaf, gyda phob un yn cael gwaith yn y sector ar ôl cwblhau'r cynllun. Yn ogystal â hynny, mae'r gwasanaeth yn anelu at gynnig cyfleoedd i raddedigion ar draws ei ddatblygiadau cynhyrchu a chyd-gynhyrchu, gan roi i lawer eu rolau proffesiynol cyntaf.

Mae'r Gwasanaeth Treftadaeth yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli fel llwybrau i waith. Dros y 18 mis diwethaf, mae 4 gwirfoddolwr wedi mynd ymlaen i gael swyddi amser llawn ac mae 3 o'r rheiny yn gweithio yn y sector diwylliannol. Yn fwyaf diweddar, mae'r gwasanaeth wedi creu cyfle prentisiaeth 2 flynedd a fydd yn arwain at gymhwyster Lefel 3 cydnabyddedig mewn Treftadaeth Ddiwylliannol.

Rydyn ni'n parhau i fuddsoddi yn ein hasedau diwylliannol ac mewn cyfleoedd i drigolion ac ymwelwyr gymryd rhan mewn diwylliant a chael mynediad ato. Mae hyn

yn cynnwys ein dwy theatr draddodiadol, werthfawr (Theatr y Colisëwm, Aberdâr a Theatr y Parc a'r Dâr, Treorci), a gaiff eu cydnabod yn Theatrau RhCT a chleient Portffolio Celfyddydau Cymru Cyngor Celfyddydau Cymru; Taith Pyllau Glo Cymru ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda; Lido Cenedlaethol Cymru, Pontypridd; Parc Coffa Ynysangharad; Parc Gwledig Cwm Dâr, a gafodd ei enwi'n un o'r chwe safle Porth Darganfod ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd; Canolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg; llyfrgelloedd a'n canolau tref bywiog.

A ninnau'n awdurdod lleol, rydyn ni'n cael ein cynrychioli yn rhwydwaith Prif Swyddogion Diwylliant a Hamdden Cymru ar gyfer awdurdodau lleol, gan roi cyfle i wella'r arlwy diwylliannol, trwy rannu arfer gorau, archwilio cydweithio, dysgu a gwybodaeth a gaiff eu rhannu, a deialog strategol gyda chyrff allweddol megis Chwaraeon Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, ac Is-adran Polisi Celfyddydau ac Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd LIC. At hynny, mae'r rhwydwaith yn archwilio ei gysylltiad â'r Gymdeithas Prif Swyddogion Hamdden⁸ fel rhwydwaith pellach ar gyfer ymgysylltu a dysgu.

3. Pa effaith y mae rhaglen 'Cyfuno: Trechu tlodi trwy ddiwylliant' Llywodraeth Cymru wedi'i chael ar fynd i'r afael â thlodi?

Er nad yw RhCT yn ardal arloesi ar gyfer y rhaglen yma, rydyn ni'n effro i'r ffaith bod gan ein cydweithwyr yn yr ardaloedd cyfagos rwydweithiau Cyfuno ac wedi ymgysylltu â nhw fel y bo'n briodol.

Rydyn ni'n cael ar ddeall bod effaith y rhaglen yn un gadarnhaol oherwydd ei bod hi'n sail i'r gwerth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar ddiwylliant. Mae hyn yn ei dro wedi darparu gwasanaethau treftadaeth yn benodol (er ei fod wedi darparu gwasanaethau diwylliannol yn fwy cyffredinol hefyd) gyda llwyfan i gyfathrebu effaith gadarnhaol eu gwaith yn ariannol yn fwy effeithiol, er enghraifft trwy wella cyflogadwyedd pobl, ac yn gymdeithasol, trwy ddarparu cyfleoedd sy'n elwa ar iechyd a lles.

Gyda gwasanaethau diwylliannol yn cael eu hystyried yn wasanaethau anstatudol ac yn aml yn wasanaethau cyhoeddus sydd ddim yn hanfodol, mae rhaglenni diwylliant LIC yn cefnogi eu gwerth cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol.

4. Pa mor effeithiol y mae rhaglenni arloesi Cyfuno wedi bod wrth ysgogi cydweithredu lleol?

Dydy RhCT ddim yn ardal arloesi felly mae'n anodd rhoi sylwadau ar hyn. Serch hynny, byddai o fudd i'r sector diwylliannol cyfan ddysgu oddi wrth raglenni arloesi Cyfuno ac archwilio manteision cydweithio rhanbarthol, yn enwedig mewn perthynas â Rhanbarth y Fargen Ddinesig, gan gefnogi codi proffil diwylliant.

⁸ <http://www.cloa.org.uk/>